**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
—
**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
remunerationboard.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Pwyllgor Senedd y Dyfodol
Senedd Cymru

6 Chwefror 2025

**Pwyllgor Senedd y Dyfodol - Blaenraglen waith**

Annwyl David,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd 2024 a oedd yn rhoi cefndir i'r cylch gwaith, yr amserlenni a'r dull gweithredu ar gyfer rhaglen waith eich Pwyllgor dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Er bod gan y Pwyllgor a'r Bwrdd gylchoedd gwaith gwahanol, fel y nodwch, bydd rhai meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgor wrth ystyried dulliau gweithredu a chynigion ar gyfer Senedd y dyfodol. Roeddwn i'n meddwl felly y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ymgynghoriadau cyfredol ac ymgynghoriadau diweddar y Bwrdd a fydd o ddiddordeb i waith y Pwyllgor neu'n berthnasol iddo, ac amlinellu dull y Bwrdd o ymdrin â gwaith arfaethedig dros y misoedd nesaf.

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad llawn o'r Penderfyniad cyn y Seithfed Senedd; rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn ystod yr haf 2025, gyda'r bwriad o allu rhoi'r eglurder sydd ei angen ar yr Aelodau a'r rhai sy'n sefyll yn yr etholiad o ran y cyflogau a'r gefnogaeth a ddarperir iddynt, a llywio proses gosod cyllideb Comisiwn y Senedd mewn modd amserol.

Wrth adolygu'r Penderfyniad mae'r Bwrdd yn gorfod ystyried llawer o amcanion ac egwyddorion craidd i sicrhau bod Aelodau'n cael eu talu'n deg ac yn cael digon o adnoddau i'w cefnogi yn eu dyletswyddau seneddol ac etholaethol, gan sicrhau hefyd bod penderfyniadau yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr a'u bod yn briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Mae'r Bwrdd yn ddiweddar wedi cwblhau ei ymgynghoriad ar Ran Un o'r adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd[1], a oedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â llety dros nos, y swyddfa etholaeth ac ymgysylltu a chymorth i Grwpiau'r Senedd. Bydd y Bwrdd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw dystiolaeth bellach i lywio ei benderfyniadau terfynol cyn cyhoeddi'r Penderfyniad yn yr haf.

[1] https://busnes.senedd.cymru/documents/s154677/Ymgynghoriad%20Rhan%20Un.pdf

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymgynghori ar ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2025/26 ar hyn o bryd a bydd yn cadarnhau ei benderfyniadau ac yn cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer 2025/26 erbyn diwedd mis Mawrth..

Mae gwaith y Bwrdd wedi'i lywio drwy ymgysylltu ag Aelodau a chynrychiolwyr staff ac undebau, ac mae wedi'i ategu gan ddadansoddiadau o ddata a thystiolaeth ac ymchwil gymharol ryngwladol. Mae’r Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr gydag Aelodau, staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur, ac mae’r cyfarfodydd hyn yn helpu i sicrhau bod grwpiau gwleidyddol a staff yn gallu amlygu unrhyw faterion neu rannu gwybodaeth, a gall y Bwrdd brofi syniadau sy’n datblygu. Mae’r Bwrdd hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd gydag Aelodau cyn cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae’r rhain yn rhoi persbectif gwerthfawr ar faterion y mae’r Aelodau yn eu hwynebu o ddydd i ddydd a chymorth a ddarperir drwy’r Penderfyniad.

Mae’r Bwrdd yn ymwybodol, wrth ddatblygu, wrth ymgynghori ynghylch, a chyhoeddi ei gynigion o ran y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd erbyn yr haf hwn, ei bod yn amlwg y bydd angen iddo gynnal adolygiad yn gynnar yng nghyfnod y Senedd newydd i asesu effaith y newidiadau o ran etholaethau, unrhyw newidiadau i fusnes y Senedd a ffyrdd newydd o weithio yr Aelodau newydd a’r rhai sy’n dychwelyd, a allai fod â goblygiadau i unrhyw ddarpariaethau yn y Penderfyniad.

Fel y byddwch yn gwybod, mae Comisiwn y Senedd hefyd yn parhau i gynllunio ei gymorth i Aelodau o’r Seithfed Senedd ac mae hwn yn gyd-destun pwysig ar gyfer adolygiad y Bwrdd. Mae’r Bwrdd a Chomisiwn y Senedd yn darparu adnoddau i gefnogi gwaith yr Aelodau ac rydym yn cynnal deialog i hwyluso cyd-ddealltwriaeth o sut y caiff Aelodau eu cefnogi yn y Seithfed Senedd.

Mewn ymateb i’r materion penodol sy’n cael eu hystyried gan y Pwyllgor, rhoddaf y wybodaeth a ganlyn:

1. Trefn busnes yn y Seithfed Senedd, gyda’r nod o ganfod opsiynau sy’n cynyddu effeithiolrwydd ei gwaith craffu, effeithlonrwydd y modd y mae’n darparu busnes o ddydd i ddydd, a hygyrchedd busnes seneddol i’r Aelodau;

Roedd ymgynghoriad diweddar y Bwrdd ar Ran Un o’r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â Llety dros nos, y Swyddfa Etholaeth ac Ymgysylltu a Chymorth i Grwpiau’r Senedd. Fel y nodwyd uchod, efallai y bydd angen i’r Bwrdd adolygu nifer o’r darpariaethau hyn yn gynnar yn y tymor newydd, tra yr arhosir i glywed profiad ac anghenion yr Aelodau newydd a’r Aelodau sy’n dychwelyd, mewn ymateb i drefn busnes yn y Senedd (er enghraifft, gallai nifer y diwrnodau eistedd effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth llety dros nos) a’u ffyrdd o weithio, o fewn yr etholaethau aml-aelod newydd, a’r dull o ran trefniadau gweithio hybrid a gweithio o bell ac amserlennu busnes yn y dyfodol.

Ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gynigion ar gyfer newidiadau i'r 'Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol', gan gynnwys ei ailenwi'n Gymorth i Grwpiau’r Senedd. Mae’r ddogfen ymgynghori yn crynhoi’r rôl bwysig y mae cymorth i grwpiau yn ei darparu o ran hwyluso a chefnogi gwaith craffu, gan gynnwys datblygu polisi a chraffu ar ddeddfwriaeth, ac mae cynigion y Bwrdd yn ceisio adlewyrchu’r swyddogaeth grŵp bwysig hon.

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei ymgynghoriad Rhan Dau ar y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd erbyn diwedd mis Mawrth, gan gynnwys cynigion yn ymwneud â'r cymorth staffio a ddarperir i'r Aelodau drwy'r Penderfyniad. Bydd hyn yn cynnwys fframwaith 'Teuluoedd Swyddi' newydd a fydd yn ceisio diweddaru rolau a chyfrifoldebau craidd staff, i gefnogi dyletswyddau etholaethol a seneddol yr Aelodau, a chan gynnwys cymorth ar gyfer datblygu polisi a chraffu, yn ogystal â'r gyllideb staffio gyffredinol ar gyfer dechrau cyfnod y Seithfed Senedd.

2. Atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol o'r canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol;

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb ac mae'n ceisio lleihau'r rhwystrau sy'n atal Aelodau, darpar ymgeiswyr a staff cymorth yr Aelodau rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau.

O ran ei ddull o ymdrin â chyflogau'r Aelodau, mae swyddogaethau'r Bwrdd wedi'u nodi gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 sy'n dweud y dylai'r Bwrdd bennu lefel o gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau o'r Senedd nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd'.

Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cyflogau'r Aelodau ar gyfer 2025/26 yn ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad[2] a bydd yn ymgynghori ymhellach ar gynigion ar gyfer cyflogau'r Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd yn ei ymgynghoriad Rhan Dau ddiwedd mis Mawrth.

Mae'r ymgynghoriad presennol ar gyfer 2025/26 yn cwmpasu blwyddyn olaf y Senedd hon ac mae hefyd yn cynnwys cynigion i gyflwyno 'taliadau dirwyn i ben' ar gyfer Aelodau sy'n gadael. Cafodd y cynigion hyn eu llywio drwy ymgysylltu ag Aelodau, gan gynnwys cyn-Aelodau ar ôl yr Etholiad diwethaf, a gwaith ymchwil ehangach. Mae'r Bwrdd wedi clywed gan amrywiaeth o Aelodau bod taliadau adsefydlu a chymorth i Aelodau sy'n gadael wrth iddynt drosglwyddo i'w camau nesaf yn ystyriaeth allweddol ac yn destun pryder i lawer o unigolion wrth iddynt ystyried a ydynt am sefyll mewn etholiad. Clywodd y Bwrdd hefyd fod rhai Aelodau'n pryderu am ragolygon cyflogaeth yn y dyfodol ar ôl iddynt roi'r gorau i fod yn eu rôl etholedig, o ystyried eu proffil cyhoeddus neu oherwydd nad ydynt wedi gallu cynnal y profiad proffesiynol, y cymwysterau neu'r sgiliau a oedd ganddynt yn eu gyrfaoedd blaenorol.

Mae'r Bwrdd felly wedi cynnig cyflwyno 'taliad dirwyn i ben' i dalu cyn-Aelodau am y cyfnod y maent yn gweithio i ddirwyn eu materion i ben, a fydd hefyd yn darparu rhywfaint o warchodaeth ariannol ac ailaddasiad i'r rhai sy'n rhoi'r gorau i'w swydd. Bydd y rhai sy'n sefyll ac nad ydynt yn cael eu hailethol hefyd yn cael y grant adsefydlu presennol, ochr yn ochr â'r taliad dirwyn i ben arfaethedig newydd.

[2] https://busnes.senedd.cymru/documents/s156668/Adolygiad%20blynyddol%20or%20Penderfyniad%20Cynigion%20ar%20gyfer%202025-26.pdf

Mae'r Penderfyniad yn cynnwys sawl darpariaeth i gefnogi anghenion ychwanegol yr Aelodau. Cafodd y darpariaethau hyn, yn bennaf, eu llywio drwy ymgysylltu ag Aelodau ac ymchwil annibynnol ar gyfer y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 (yn yr adroddiad Dadansoddi Amrywiaeth[3]). Mae'r Penderfyniad ar hyn o bryd yn cynnwys Pennod benodol (3A) ar Gymorth Ychwanegol i'r Aelodau, sy'n sôn am y gefnogaeth sy'n ymwneud ag anableddau, cymorth i Aelodau â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill a chymorth i Aelodau ar absenoldeb rhiant. Darperir cymorth arall i'r Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, costau llety dros nos ychwanegol i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion (paragraff 4.4.3(h)) a chostau teithio i bartneriaid yr Aelodau neu deithio gan eu plant (paragraff 5.18).

Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig yn ei ymgynghoriad Rhan Dau o ddiwedd mis Mawrth ymlaen. Byddai'r Bwrdd felly'n croesawu unrhyw ganfyddiadau gan y Pwyllgor a allai lywio adolygiad y Bwrdd o'r darpariaethau hyn fel y gall y Bwrdd eu hystyried wrth adolygu adborth yn sgil yr ymgynghoriad maes o law.

3. Y trothwyon a osodir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, roedd ymgynghoriad Rhan Un diweddar y Bwrdd yn cynnwys cynigion i newid cymhwysedd ar gyfer cymorth i grwpiau gwleidyddol ar gyfer y Seithfed Senedd.

Ar hyn o bryd diffinnir grwpiau gwleidyddol yn y Penderfyniad fel:

(i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol, neu
(ii) grŵp yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3(ii), Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, neu
(iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig

Roedd ymgynghoriad y Bwrdd, fodd bynnag, yn cynnig y byddai Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn y Seithfed Senedd yn cael ei ddarparu i'r Grwpiau hynny a ddiffinnir fel grwpiau gwleidyddol yn Rheol Sefydlog 1.3 y Senedd yn unig.

Mae'r Penderfyniad ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer cefnogaeth ychwanegol i Aelodau unigol nad ydynt yn rhan o grŵp (o dan (iii) uchod). Fodd bynnag, mae newid arfaethedig y Bwrdd yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd am swyddogaethau ac anghenion penodol grŵp o Aelodau.

Mae'r Bwrdd hefyd o'r farn y byddai darparu Cymorth Grwpiau'r Senedd dim ond i'r grwpiau hynny fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog yn cyd-fynd yn agosach â'r bwriadau ar gyfer cymorth i grwpiau fel y'u nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 24(5)).

---

[3] https://busnes.senedd.cymru/documents/s77244/Dadansoddi%20Amrywiaeth.pdf

Cefnogwyd y cynnig hwn gan grwpiau gwleidyddol y Senedd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, er bod un ymateb yn nodi y gallai fod angen rhagor o ymchwil ar yr effeithiau ar Aelodau unigol. Mae'n bwysig nodi y bydd Aelodau unigol yn parhau i gael adnoddau a chymorth drwy eu cyllidebau swyddfeydd a'u cyllideb cyswllt etholaethol a staffio, drwy'r Penderfyniad.

Dechreuodd ymgynghoriad y Bwrdd ar Gymorth i Grwpiau'r Senedd cyn sefydlu Pwyllgor Senedd y Dyfodol.  Mae dogfen ymgynghori y Bwrdd, fodd bynnag, yn dweud 'rhagdybiwyd bod y trothwy ar gyfer Grŵp o dan y Rheolau Sefydlog yn parhau i fod yn dri Aelod, er bod y Bwrdd yn cydnabod yn ei ymgynghoriad y gallai'r Senedd benderfynu adolygu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer y Seithfed Senedd ac y gallai diffiniad a maint Grŵp newid.' Felly, bydd y Bwrdd yn ystyried goblygiadau casgliadau'r Pwyllgor a phenderfyniad y Senedd ar unrhyw adolygiad o'r Rheolau Sefydlog maes o law.

Efallai y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yng nghrynodeb y Bwrdd o ddiben a swyddogaethau craidd Cymorth i Grwpiau (paragraffau 112-122 o'r ddogfen ymgynghori Rhan Un) a gafodd eu llywio gan waith casglu tystiolaeth ac ymgysylltu (gweler paragraffau 163-169) a gwaith ymchwil y Bwrdd i'r cymorth i grwpiau gwleidyddol yn rhyngwladol[4].

Roedd ymgynghoriad y Bwrdd yn cynnig y diben a ganlyn ar gyfer Cymorth i Grwpiau yn y Seithfed Senedd:

> Mae Cymorth i Grwpiau seneddol yn rhoi adnoddau i Grwpiau ddarparu gweinyddiaeth a chydgysylltu canolog, ymchwil a llunio polisïau sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

Cafodd y crynodeb o swyddogaethau craidd grwpiau a diben diwygiedig arfaethedig Cymorth i Grwpiau'r Senedd eu cymeradwyo a'u cefnogi'n fras gan grwpiau gwleidyddol y Senedd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi hefyd, er bod sylwadau wedi'u gwneud y dylai'r Bwrdd ddarparu cyllid i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru (yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisi), nid oes gan y Bwrdd y pŵer i ddarparu cyllid i bleidiau gwleidyddol, ond yn hytrach i Aelodau unigol neu grwpiau gwleidyddol o'r Senedd. Roedd adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio ar 7 Mehefin 2024 yn rhoi eglurhad defnyddiol ar y mater hwn.

Hyderaf fod y wybodaeth uchod o ddiddordeb o ran gwaith parhaus y Pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at weld adroddiad y Pwyllgor yn y misoedd nesaf.

Yn gywir,

Dr Elizabeth Haywood,
Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.*

[4] https://bwrddtaliadau.cymru/media/q4cepyle/support-for-parliamentary-groups-and-international-comparison-cy.pdf